

Adnabod ac Arolwg Coed

Ewch â'r plant am dro o amgylch tir yr ysgol. Ydi'r plant erioed wedi sylwi ar y gwahanol fathau o goed sydd o amgylch yr ysgol? Ydy'r coed i gyd yr un fath? Sut maen nhw'n wahanol? Beth yw siâp a maint y coed? Oes ganddyn nhw ddail a ffrwythau? Pa fath o goeden yw'r goeden fwyaf poblogaidd ar dir yr ysgol?

A allwch chi gasglu dail gwahanol o'r coed yn yr ysgol a'r cyffiniau? Defnyddiwch y cyfle i ddidoli'r dail yn gasgliadau. Gallech gyflwyno iaith wyddonol casglu data trwy ddidoli'r coed yn unol â meini prawf Coed Cadw (the Woodland Trust), ee dail syml, dail llydanddail, cyfansawdd ac ati. Mae plant yn dysgu geirfa ac yn adnabod dail a choed yn gyflym iawn pan gaiff y weithgaredd hon ei chyflwyno a'i defnyddio'n gyson.

Mae Coed Cadw yn cynnig llawer o wahanol dulliau a chanllawiau ar gyfer adnabod gwahanol goed ar adegau gwahanol o'r flwyddyn, ond mae'r Hydref yn dymor gwych ar gyfer y gweithgaredd hwn. Os nad oes gennych lawer o goed yn eich ysgol gallwch archebu pecynnau plannu am ddim gan Coed Cadw ac mae'n ffordd wych o ddatblygu'ch ysgol yn amgylcheddol.

Wrth gasglu dail fydd y plant yn gwneud hyn byddant yn datblygu ac yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau mathemategol yn yr awyr agored:

- Didoli
- Dosbarthu – un maen prawf, dau faen prawf, diagram venn a diagram carroll
- Trefnu
- Mireinio
- Creu Patrwm
- Siâp
- Rhif
- Casglu, cofnodi a dehongli data – sy'n rhan allweddol o'r weithgaredd yma.

Gallai'r gwaith Cofnodi a Chasglu Data gynnwys siartiau bar, rhai enfawr gyda'r dail eu hunain ar y graff ac wedi'u rhifo, labeli data ac ati neu gan ddefnyddio opsiynau digidol fel Jit5 a J2E ar Hwb.

Mae iaith didoli, dosbarthu, trefnu a mireinio yn gyfle cyfoethog i'r plant drafod ystod o wahanol agweddau ar y dail gan ddefnyddio a datblygu eu iaith fathemategol.

Efallai y gellid datblygu'r weithgaredd ymhellach gan greu siop ddail gyda'r dail a gasglwyd. Gellir gwerthu'r dail am wahanol brisiau a'r plant i roi newid.